## TAFLEN BENDERFYNIAD AELOD UNIGOL O GABINET CYNGOR GWYNEDD

| | |
|---|---|
| **DYDDIAD Y PENDERFYNIAD** | 20 Mawrth 2017 |
| **DYDDIAD CYHOEDDI'R PENDERFYNIAD** | 21 Mawrth 2017 |
| **DYDDIAD Y BYDD Y PENDERFYNIAD YN DOD I RYM** ac y gweithredir arno, oni bai bo'r penderfyniad yn cael ei alw i mewn yn unol ag adran 7.25.1 o Gyfansoddiad Cyngor Gwynedd. | 28 Mawrth 2017 |

**ENW A THEITL YR AELOD CABINET**

Y Cynghorydd  Ioan Thomas

**PWNC**

Cynllun Taliadau Tai Dewisol 2017/18

PENDERFYNIAD –

Awdurdodi yn unol â'r Adroddiad Swyddog

RHESWM DROS YR ANGEN AM Y PENDERFYNIAD –

Gweler yr Adroddiad Swyddog

**DATGANIADAU O FUDDIANT PERSONOL AC UNRHYW OLLYNGIADAU PERTHNASOL A GANIATWYD GAN Y PWYLLGOR SAFONAU**

Dim

**UNRHYW YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWYD CYN GWNEUD Y PENDERFYNIAD-**

Ymgynghorwyd â –
Swyddogion Statudol Cyngor Gwynedd

Adroddir ar ganlyniadau'r ymgynghoriadau yn yr adroddiad atodedig

**TAFLEN BENDERFYNIAD AELOD UNIGOL O GABINET CYNGOR GWYNEDD – ADRODDIAD SWYDDOG**

| | |
|---|---|
| Enw a theitl yr Aelod/au Cabinet : | Y Cynghorydd Ioan Thomas, Aelod Cabinet dros Tai, Gofal Cwsmer a Llyfrgelloedd, Amddifadedd a Chydraddoldeb |
| Enw a theitl Awdur yr Adroddiad : | Dewi Morgan, Uwch Reolwr Refeniw a Risg |
| Dyddiad y Cymerwyd y Penderfyniad : | 20/3/17 |
| Llofnod yr Aelod/au Cabinet : | |

**Pwnc :**

Cynllun Taliadau Tai Dewisol 2017/18

**Argymhelliad ar gyfer y Penderfyniad :**

Mabwysiadu'r cynllun lleol (sydd yn yr Atodiad) ar gyfer darparu Taliadau Tai Dewisol (TTD) i hawlwyr budd-dal ble nad yw'r budd-dal tai a dderbynnir yn talu'r rhent taladwy yn llawn.

**Rheswm dros yr angen am y Penderfyniad :**

Mae Cyngor Gwynedd yn derbyn arian gan Adran Gwaith a Phensiynau'r Llywodraeth i'w ddosbarthu ar ei ddisgresiwn i unigolion a/neu teuluoedd sydd angen cymorth ychwanegol gyda'u costau tai. Mae'r Taliadau Tai Dewisol (TTD) hyn yn ychwanegol i Fudd-dal Tai sy'n daladwy, ac yn cael ei ddefnyddio i fynd peth o'r ffordd i lenwi'r bwlch pan nad yw'r Budd-dal Tai yn ddigonol i gwrdd â'r rhent i gyd.

Yn ogystal â dyraniad sylfaenol, ers Gorffennaf 2013 mae Cyngor Gwynedd wedi derbyn dyraniad ychwanegol i roi cymorth i deuluoedd sydd yn cael eu heffeithio gan bolisi'r Llywodraeth o diddymu'r cymhorthdal ystafell sbâr (y "Treth Llofftydd"), ac sydd yn adlewyrchu'r sefyllfa fod Gwynedd ymysg y 21 ardal llywodraeth leol mwyaf gwledig yn y DU. Bydd y Cyngor yn derbyn cyfanswm o £726,374 yn 2017/18 (o'i gymharu â £659,887 yn 2016/17), sy'n cynnwys taliad ychwanegol i adlewyrchu statws Gwynedd fel "sir wledig".

O diffiniad, caniateir TTD yn ôl disgresiwn y Cyngor. Gwneir pob ymdrech i sicrhau fod penderfyniadau i wneud taliadau o'r fath yn dryloyw ac ar sail haeddiant, ac ers 2015/16 bu gan y Cyngor bolisi ysgrifenedig er mwyn atgyfnerthu ac ategu hyn. Cydweithiodd Cyngor Gwynedd ag awdurdodau lleol eraill yng Nghymru i ddatblygu model cyffredin ar gyfer rhannu TTD; y model yma fu'n gosod sylfaen ar gyfer polisi'r Cyngor, ond mae wedi ei addasu i adlewyrchu anghenion lleol. Ymhellach, gwnaethpwyd rhai newidiadau i'r polisi lleol ar gyfer 2016/17 ers un y flwyddyn

flaenorol, er mwyn sicrhau fod y lefel uwch o gefnogaeth y mae'r Cyngor yn ei dderbyn yn cael ei ddosbarthu i'r rhai sydd ei angen.

Ni fydd mabwysiadu polisi lleol yn ein rhwystro rhag rhoi sylw i achosion unigol lle mae sefyllfaoedd eithriadol.

**Rhesymeg a chyfiawnhad dros gyrraedd y Penderfyniad :**

Mabwysiadwyd y Polisi ar gyfer 2015/16 ym Mawrth 2015. Dyna oedd y tro cyntaf i'r Cyngor gyflwyno polisi ysgrifenedig, ac eglurwyd ar y pryd fod y polisi yn seiliedig ar fframwaith a oedd yn gynnyrch prosiect TTD Cymreig mewn cydweithrediad â'r WLGA, gyda Cyngor Gwynedd yn rhan ohono.

Oherwydd mai yn flynyddol y mae'r Llywodraeth yn cadarnhau lefelau ariannu'r cynllun TTD, rhaid mabwysiadu cynllun newydd pob blwyddyn.

Ar gyfer 2017/18, nid yn unig y mae'r elfen "sir wledig" wedi cael ei gadw, ond mae'r dyraniad TTD sylfaenol wedi cynyddu hefyd, gan gynyddu'r cyfanswm o £659,887 i £726,374. Er fod cynnydd yn lefel yr arian sydd ar gael, disgwylir y bydd gostyngiad y cap budd-dal gan y Llywodraeth yn cynyddu'r galw am daliadau tai dewisol yn 2017/18. Felly, byddai'n rhesymol cadw'r Polisi ar gyfer 2017/18 fel ag yr oedd yn y flwyddyn flaenorol.

Ni dderbyniwyd cadarnhad o lefelau ariannu 2017/18 tan 1af Mawrth 2017, sy'n ei gwneud yn amhosib i ymgynghori cyn y gall y Polisi ddod i rym. Fodd bynnag, rhannwyd Polisi drafft 2016/17 mewn ymarferiad ymgynghori i randdeiliaid megis Cymdeithasau Tai, y Bwrdd Iechyd a chynrychiolwyr o'r Drydydd Sector yn ystod Chwefror 2016 a cafwyd un ymateb. Ar ôl ystyried canlyniad yr ymgynghoriad hwnnw, gwnaethpwyd addasiad i'r Polisi (ychwanegu carfan arall i Grŵp Blaenoriaeth A, sef y grŵp blaenoriaeth uchaf) sy'n parhau yn ei le ar gyfer 2017/18.

Dylid nodi nad yw lefel y dyraniad TTD i Cyngor Gwynedd wedi ei warantu y tu hwnt i 2017/18.

**Cofnod o unrhyw fuddiant a ddatganwyd gan unrhyw Aelod Cabinet yr ymgynghorwyd â hwy ac unrhyw oddefeb gan Bwyllgor Safonau :**

Dim

**Unrhyw ymgynghoriadau a gynhaliwyd cyn gwneud y Penderfyniad :**

Prif Weithredwr – Dim i'w ychwanegu

Prif Swyddog Cyllid – Rwyf wedi cydweithio gyda'r Aelod Cabinet i baratoi'r adroddiad yma ac rwy'n cadarnhau cywirdeb y cynnwys.

Swyddog Monitro – Amcan y penderfyniad yw darparu eglurdeb a chysondeb ynglŷn â gweithredu'r Cynllun Taliadau Tai Dewisol yng Ngwynedd ac yn ehangach. Mae'r gyfundrefn yn darparu ar gyfer hyblygrwydd hefyd i ganiatáu eithriadau neu amgylchiadau penodol. Mae hyn yn gyfrwng i sicrhau tegwch a thryloywder sydd i'w groesawu.

Aelod/au Lleol – Dim yn fater lleol

# CYNGOR GWYNEDD

*POLISI GWEITHREDU AR GYFER RHANNU DYRANIAD*

*TALIADAU TAI DEWISOL (TTD)*

*GWYNEDD*

*2017/18*

MAWRTH 2017

# POLISI TTD 2017/18:

## CYFLWYNIAD

1. Mae'r polisi hwn yn gosod allan y dull a gytunwyd i benderfynu pwy ddylai dderbyn Taliadau Tai Dewisol (TTD) am 2017/18. Cafodd ei gynllunio i wneud penderfyniadau am ddyfarnu taliadau dewisol yn fwy systematig, cyson a thryloyw. Nid yw yn bwriadu gosod ateb safonol i bob cais. Mae ymarfer disgresiwn yn parhau i fod yn ganolog i'r cynllun.

2. Telir TTD o gyllideb gyfyngedig a'r bwriad yw helpu pobl i gwrdd â chostau tai, fel arfer pan fo diffyg rhwng eu Budd-dal Tai (neu elfen tai o'r Credyd Cynhwysol) a'u rhent.

3. Nid yw hi'n bosib rhoi taliad ymhob achos ble fo diffyg o'r fath. Mae'r polisi hwn yn fodd o helpu i benderfynu ar y blaenoriaethau ar gyfer talu pan fo'r galw yn fwy na'r hyn sydd ar gael, fel sy'n debygol o ddigwydd.

4. O ystyried y bydd TTD yn y pendraw yn gorfod cael eu targedu i'r rhai fydd eu hangen fwyaf, mae hi wrth gwrs yn bwysig gwirio ar y dechrau fod holl ymgeiswyr TTD yn derbyn eu hawl llawn o Fudd-dal Tai gan y byddai yn wastraffus rhoi TTD mewn amgylchiadau ble y gellid talu BT ychwanegol yn lle hyn.

## AMCANION POLISI ALLWEDDOL

5. Wrth wneud penderfyniadau ar flaenoriaethau, mae yna rai amcanion cyffredinol:
   - Rhoi penderfyniad mor deg a chyson â phosib i'r holl ymgeiswyr.
   - Gwneud penderfyniadau sydd wedi eu cynllunio i wella'r canlyniadau i bobl.
   - Gwario'r gyllideb TTD flynyddol a chadw unrhyw newidiadau i flaenoriaethau yn ystod y flwyddyn i leiafswm (efallai y bydd angen rhain i osgoi gor neu danwario).
   - Yn gyffredinol i roi mwy o flaenoriaeth i:
     - ➢ helpu'r rhai sy'n ymdrechu i helpu eu hunain;
     - ➢ cefnogi'r rhai sydd wedi gwneud popeth y gallant i ymdopi gyda'u sefyllfa ac na allant mewn gwirionedd wneud mwy;
     - ➢ atal canlyniadau negyddol fel digartrefedd sy'n debygol o olygu mwy o galedi i'r aelwyd yn ogystal â chostau ychwanegol ynghyd â chostau y gellid eu hosgoi i'r Cyngor.
   - Bwriad y polisi yw i roi cymorth tymor byr lle bo hynny'n bosib. Nid oes unrhyw sicrwydd o ran cyllid yn y dyfodol, ac ni ellir ystyried taliadau TTD fel ateb parhaol i'r toriadau Diwygio Lles. Hefyd, bydd nifer gynyddol o bobl yn chwilio am gymorth gan TTD fel y daw mesurau newydd megis y Cap Budd-dal newydd, a rhewi lwfansau a chyfraddau LTLl i rym. Bydd gan hawlwyr y Credyd Cynhwysol hefyd fynediad at y gronfa.
   - Bydd y polisi felly yn anghymell diwylliant o ddibyniaeth ar daliadau TTD, yn arbennig felly pan fo dulliau amgen dichonadwy.

## POLISI I BENDERFYNU AR FLAENORIAETHAU

6. Nid yw hi'n ddigonol i roi taliadau i rai categorïau bras o bobl (fel unig riant a phobl anabl) i gwrdd â'r amcanion hyn. Mae angen diffinio pa bobl yn y categorïau hyn a chategorïau eraill a ddylai, fel rheol, gael blaenoriaeth.

7. Y ffactorau pwysig wrth benderfynu ar flaenoriaethau yw:
   - Amgylchiadau ariannol yr aelwyd;
   - Y grŵp blaenoriaeth mae'r aelwyd ynddo;

- Y graddau y mae aelodau'r aelwyd yn gallu ac yn barod i ymdopi gyda'r sefyllfa maent ynddi, neu na ellir disgwyl yn rhesymol iddynt wneud mwy;
- Canlyniadau ariannol ehangach peidio â rhoi taliad.

Caiff yr holl ffactorau hyn eu trafod yn fanylach yn y paragraffau isod.

Cam 1: **Asesiad Ariannol**

**8.** Bydd asesiad ariannol yn cael ei wneud o bob cais drwy gymharu incwm gyda gwariant. Mae hyn mor syml â phosib ond yn ddigonol i wneud dyfarniad rhesymol. Ar gyfer y mwyafrif o geisiadau caiff yr holl incwm a gwariant eu hystyried yn ogystal ag unrhyw gyfalaf. Fodd bynnag, lle mae aelod o'r aelwyd yn derbyn Lwfans Byw Anabledd (DLA) neu Taliad Annibyniaeth Bersonol (PiP), ni chaiff yr incwm DLA/PiP ei gyfrif, a bydd rhai elfennau o wariant sy'n gysylltiedig ag anabledd yn cael eu heithrio hefyd. Os oes unigolion nad ydynt yn ddibynyddion ar yr aelwyd yna bydd yr incwm maent hwy yn ei gyfrannu i'r aelwyd fel arfer yn cael ei gynnwys yn yr asesiad ariannol, er y derbynnir y bydd gwariant yr aelwyd ar fwyd a gwres yn uwch. Yr egwyddor sylfaenol yw y dylai'r cymorth fynd i rai sydd heb fodd arall o gwrdd â'r angen.

**9.** Felly, y prawf cyntaf yw os ydyw cyfanswm ymrwymiadau aelwyd yn gyfartal i neu yn fwy na'r incwm. Pan fo DLA yn cael ei dalu caiff ei eithrio o'r cyfrifiad incwm. Rhoddir ystyriaeth i holl wariant aelwyd wrth gyfrifo cyfanswm ymrwymiad yr aelwyd oni bai fod DLA yn cael ei dalu. Yn yr achos yma, caiff gwariant ar eitemau sy'n gysylltiedig ag anabledd, hyd at y lefel y gydran DLA/PiP perthnasol, ei eithrio o gyfanswm y gwariant. Caiff unrhyw wariant sy'n gysylltiedig ag anabledd uwchlaw lefel y gydran perthnasol ei gynnwys fel gwariant yr aelwyd. Os oes incwm ar gael, neu a fedrai fod ar gael, sy'n ddigonol i gwrdd â'r diffyg yn y rhent neu'r angen tai arall, ni fydd cais TTD fel arfer yn llwyddo oni bai, neu tan fo'r amgylchiadau yn newid.

**10.** Os oes peth incwm ar gael, ond ei fod yn annigonol i gwrdd â'r diffyg mewn rhent, bydd y cais am TTD yn cael ei brosesu, ac os yw'r meini prawf eraill yn cael eu cwrdd ac y penderfynir rhoi taliad, tynnir yr incwm sydd ar gael o'r taliad.

**11.** Mae'r prawf ychydig yn wahanol yn achos cyfandaliadau (e.e. blaendal rhent, rhent ymlaen llaw a chostau symud). Mae dau ran i'r prawf:

**a)** A oes yna unrhyw gynilion a fedrai gwrdd â'r angen?

**b)** Os nad oes, a yw'r incwm ar lefel gwariant neu is, neu ddim yn sylweddol uwch, ac oes yna unrhyw fodd i'r ymgeisydd gynilo'r swm sydd ei angen?

Cam 2: **Grwpiau Blaenoriaeth**

**12.** Ar ôl cyflawni'r asesiad ariannol, yr ail gam yw penderfynu ar y flaenoriaeth y dylid ei rhoi i amgylchiadau penodol bob cais. I wneud y broses mor syml â phosib, gosodir yr amgylchiadau penodol mewn pum grŵp, A-E sydd mewn trefn ddisgynnol o ran blaenoriaeth. Gweler Atodiad 1 i gael manylion bob grŵp.

Cam 3: **Y gallu i reoli'r sefyllfa**

**13.** Y cam nesaf yw edrych ar ystyriaethau polisi cyffredinol. Yn aml, gellir defnyddio TTD yn fwyaf effeithiol fel cam dros dro pan fydd aelwyd yn ceisio ateb tymor hir i'r sefyllfa mae ynddi. Ble fo'n bosib, rhoddir blaenoriaeth uwch i'r rhai sydd yn weithredol yn cymryd camau eu hunain, er enghraifft rhai gyda diffyg Lwfans Tai Lleol sydd yn edrych am lety rhatach, neu y rhai gydag ystafelloedd sbâr sy'n trefnu i symud neu gael lletywr.

**14.** Er hynny, mae yna hefyd rai sefyllfaoedd ble y bydd angen TTD efallai am gyfnod hirach. Fe fydd yna rai aelwydydd na allant mewn gwirionedd leddfu eu sefyllfa drwy weithredu eu hunain. Er enghraifft, aelwyd gydag aelod anabl difrifol sydd ddim yn gallu gweithio neu yn gallu cael lletywr, sydd eisoes yn rheoli cyllideb yr aelwyd mor effeithiol â phosib. Bydd aelwydydd o'r fath hefyd yn cael blaenoriaeth uwch.

**15.** Mae yna hefyd aelwydydd sydd ddim ar hyn o bryd yn helpu eu hunain yn y ffordd a ddisgrifiwyd uchod ond sydd yn barod i ddechrau gwneud hyn. Yn yr achosion hyn, gall y TTD fod yn amodol i gymryd camau penodol a gall y dyfarniad fod am gyfnod byrrach.

<u>Cam 4: **Osgoi costau pellach (a chaledi)**</u>

**16.** Gellid defnyddio TTD i helpu atal caledi pellach fel dadfeddiant a'r costau cysylltiedig i'r cyngor o drin digartrefedd. Gallai'r perygl o golli tenantiaeth godi am sawl rheswm, ond nid oes unrhyw feirniadaeth yn cael ei wneud am y ffactorau sydd yn achosi'r broblem. Yn syml y maen prawf hwn yw osgoi costau pellach a chaledi.

**17.** Er hynny, mae'n annhebygol y bydd yn hyfyw i dalu TTD yn ddiderfyn yn yr amgylchiadau hyn. Os yw aelwyd yn cael bygythiad o ddadfeddiant, ni ellir gadael i'r sefyllfa barhau yn ddiderfyn. Rhaid dod o hyd i ateb, boed hynny yn ddarpariaeth llety gwahanol neu bod yr aelwyd yn cymryd camau i leihau ôl-ddyledion. Rhoddir y flaenoriaeth uchaf o dan y maen prawf hwn pan nad oes unrhyw ateb i'w weld.

## MATRICS GOSOD BLAENORIAETHAU

**18.** Er mwyn helpu gyda phenderfynu ar flaenoriaethau, lluniwyd matrics syml sy'n cyfuno grwpiau blaenoriaeth gyda'r ystyriaethau polisi a ddisgrifiwyd uchod. Mae pob ymgeisydd yn derbyn sgôr gwaelodlin ar sail y grŵp blaenoriaeth maent ynddo – sgoriau y gwaelodlin yw **A**=12, **B**=9, **C**=6, **D**=3 a **E**=0.

**19.** Mae pwyntiau ychwanegol yn dibynnu ar y graddau mae ystyriaethau polisi cyffredinol (camau 3 a 4 uchod) yn cael eu cwrdd ac maent yn amrywio o 0 i 9. Rhoddir y pwyntiau uchaf (9) i'r rhai sydd

- **a)** yn weithredol geisio rheoli'r sefyllfa maent ynddi, neu
- **b)** ddim yn rhesymol yn gallu gwneud dim mwy i helpu eu hunain, neu
- **c)** ble fo talu TTD yn osgoi costau pellach i'r Cyngor (a chaledi i'r ymgeisydd), yn enwedig ble fo ateb yn bosib.

Os yw a), b) neu c) uchod yn cael eu cwrdd yn rhannol, rhoddir chwe phwynt ac os nad yw unrhyw un o'r ystyriaethau hyn yn cael eu cwrdd yna ni fydd unrhyw bwyntiau ychwanegol yn cael eu rhoi. Dim ond un o'r ystyriaethau polisi cyffredinol sydd angen eu cwrdd i ennill y sgôr uchaf. Nid oes unrhyw bwyntiau ychwanegol yn cael eu rhoi i gwrdd mwy nag un ystyriaeth: mae hyn yn caniatáu i ystod eithaf eang o amgylchiadau i dderbyn sgôr blaenoriaeth uchel neu'r uchaf.

**20.** Mae hi'n bwysig peidio â defnyddio'r matrics yn gaeth ymhob achos,*bydd achosion unigol fydd yn syrthio y tu allan i'r canllawiau fydd yn cyfiawnhau taliad.*

**Taliadau Cyfredol** – Sgoriau gwaelodlin

Cam 3: **Y gallu i reoli'r sefyllfa**

| Ystyriaethau polisi a phwyntiau ychwanegol | | Grwpiau blaenoriaeth a chyfanswm pwyntiau | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | A (12) | B (9) | C (6) | D (3) | E (0) |
| Gallu i ymdopi â'r sefyllfa – yn gwneud popeth sy'n bosib neu ni ellir yn rhesymol ddisgwyl iddynt wneud mwy.<br>Cydymffurfio gyda 19 a) neu b) uchod | 9 | 21 | 18 | 15 | 12 | 9 |
| Gallu i ymdopi – ymrwymiad wedi ei wneud.<br>Cydymffurfio gyda 19 a), neu b) uchod yn rhannol. | 6 | 18 | 15 | 12 | 9 | 6 |
| Gallu i ymdopi – ddim yn gwneud unrhyw beth (er yn gallu)<br>Dim yn cydymffurfio gyda 19 a), neu b) uchod | 0 | 12 | 9 | 6 | 3 | 0 |

Cam 4: **Osgoi costau pellach (a chaledi)**

| Ystyriaethau polisi a phwyntiau ychwanegol | | Grwpiau blaenoriaeth a chyfanswm pwyntiau | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | A (12) | B (9) | C (6) | D (3) | E (0) |
| Osgoi costau pellach/caledi – ateb i'w weld<br>Cydymffurfio gyda 19 c) uchod | 9 | 21 | 18 | 15 | 12 | 9 |
| Osgoi costau pellach/caledi – ateb yn bosib mewn amser<br>Cydymffurfio gyda 19 c) uchod yn rhannol. | 6 | 18 | 15 | 12 | 9 | 6 |
| Osgoi costau pellach/caledi – dim ateb<br>Dim yn cydymffurfio gyda 19 c) uchod | 0 | 12 | 9 | 6 | 3 | 0 |

Tabl Sgoriau:

| | |
|---|---|
| 21 | blaenoriaeth uchaf |
| 18 | uchel |
| 15 | canolig i uchel |
| 12 | canolig |
| 9 | canolig i isel |
| 6 | isel |
| 3 | isaf |

**21.** Gellid defnyddio'r matrics i asesu cais yn y lle cyntaf a hefyd fel modd o helpu i sicrhau bod penderfyniadau mor gyson â phosib.

**22.** Wedi i sgôr gael ei benderfynu i bob cais, rhoddir TTD yn unol â'r tabl isod am 2017/18.

**Tabl (a)** - Ceisiadau cyfredol lle mae TTD eisoes yn cael ei dalu yn 2016/17

| Sgôr wedi ei gyfrifo | Tâl TTD - % o'r diffyg (Dyma'r uchafswm – gweler 27(a) i (d) ) | Uchafswm cyfnod y taliad |
|---|---|---|
| 21 | 75% | Hyd at 52 wythnos |
| 18 | 50% | Hyd at 52 wythnos |
| 15 | 40% | Hyd at 52 wythnos |
| 12 | 30% | Hyd at 52 wythnos |
| 9 | 20% | Hyd at 52 wythnos |
| 6 | 0 | 0 |
| 3 | 0 | 0 |

**Tabl (b)** - Ceisiadau newydd lle nad yw TTD eisoes yn cael ei dalu

| Sgôr wedi ei gyfrifo | Tâl TTD - % o'r diffyg (Dyma'r uchafswm – gweler 27(a) i (d) ) | Uchafswm cyfnod y taliad |
|---|---|---|
| 21 | 100% | Hyd at 26 wythnos, i'w ddilyn gan 75% am hyd at 26 wythnos pellach |
| 18 | 75% | Hyd at 26 wythnos, i'w ddilyn gan 50% am hyd at 26 wythnos pellach |
| 15 | 40% | Hyd at 52 wythnos |
| 12 | 30% | Hyd at 52 wythnos |
| 9 | 20% | Hyd at 52 wythnos |
| 6 | 0 | 0 |
| 3 | 0 | 0 |

**23.** ***Bydd y gyfundrefn uchod yn cael ei defnyddio ar gyfer gwneud penderfyniadau am gyfnod o 6 mis o'r 1af Ebrill 2017***, ac fe adolygir y polisi ar ddiwedd y cyfnod hwnnw.

## AMODOLDEB

*Ni ragwelir y bydd angen defnyddio'r darpariaethau yma yn aml, ond mi fydd rhai dyfarniadau yn cael eu caniatáu ar yr amod fod yr ymgeisydd yn gweithredu mewn ffordd benodol, ac fe ellir caniatáu taliad am gyfnod byrrach na'r hyn a ddangosir yn y tabl yn 22 uchod.*

**24.** Telir y mwyafrif o'r taliadau blaenoriaeth uchaf yn ddiamod, un ai oherwydd nad oes unrhyw newid tymor byr yn debygol yn yr amgylchiadau a olygodd dderbyn tâl TTD, neu mae'r aelwyd eisoes yn gwneud popeth sy'n bosib i ymdopi gyda'r sefyllfa maent ynddi.

**25.** Mae pob dyfarniad arall yn amodol i o leiaf peth amodoldeb, sydd wedi ei ddylunio i annog yr ymgeisydd i ddatrys y diffyg mewn rhent heb fynediad i daliadau TTD. Mae graddau'r amodoldeb yma yn dibynnu ar yr amgylchiadau – mewn rhai achosion bydd yn gymharol ysgafn, ond yn fwy caeth gydag eraill. Mewn sawl achos bydd amodoldeb yn golygu cyfeirio pobl at asiantaethau cefnogi a chynghori.

## Ail ddyfarniadau/Estyniadau

**26.** Gellid ymestyn dyfarniad am gyfnod byr heb fod angen cais newydd, mewn rhai amgylchiadau:

- Ble fo cais wedi ei wneud gan weithwyr cefnogol am reswm dilys;
- Wrth aros am newid mewn digwyddiadau (e.e. symud tŷ, genedigaeth plentyn);
- Pan fo angen rhagor o amser i gwrdd â'r gofynion sy'n atodol i ddyfarniad.

## Dyfarniadau rhannol/llawn

**27.** Gellid rhoi dyfarniadau am swm wythnosol fydd yn cwrdd â'r diffyg rhwng y rhent a'r Budd-dal Tai sy'n daladwy yn llawn. Er hynny, bydd y Cyngor yn rhoi dyfarniadau rhannol yn y mwyafrif o achosion oherwydd cyfyngiadau cyllideb a hefyd gan y gall fod adegau pan y bydd yn fwy priodol i wneud dyfarnaid rhannol, fel a ddisgrifiwyd yn a) i d) isod:

**a)** Mae peth incwm ar gael i'r aelwyd ond ddim digon i dalu'r diffyg, yn cynnwys sefyllfaoedd ble fo mwy o incwm yn dod ar gael oherwydd bod dyledion yn cael eu talu.
**b)** Mae polisi bwriadol i ganiatáu i aelwyd addasu yn raddol i sefyllfa newydd, fel y Maen Prawf Maint Cymdeithasol ("treth ystafell wely") neu'r Cap Budd-dal.
**c)** Gosodwyd amodau i'r dyfarniad ond nid yw'r amodau wedi eu cwrdd.
**d)** Yn ôl disgresiwn y Cyngor mewn rhai amgylchiadau eraill (e.e. ble bo rhent afresymol o uchel mewn achosion yn y sector preifat).

## Newid amgylchiadau

**28.** Disgwylir i'r holl ymgeiswyr adrodd am newidiadau mewn amgylchiadau fel y byddent ar gyfer Budd-dal Tai. Mae hi'n arbennig o bwysig fod ymgeiswyr yn rhoi gwybod am newidiadau mewn incwm, patrymau gwariant neu gyfansoddiad aelwyd. Mae'r mwyafrif o hysbysiadau ynglŷn â newid mewn amgylchiadau yn ymwneud â Budd-dal Tai ond ble fod TTD yn daladwy gall hyn olygu canslo neu newid y dyfarniad TTD. Gellid dilyn hyn gan chais newydd os yn briodol.

**29.** Yn gyffredinol, mae gordaliadau TTD yn cael eu cyfrif ac os ydynt yn adferadwy byddant yn cael eu hadennill fel dyledion amrywiol (tenantiaid preifat) neu drwy'r cyfrif rhent (tenantiaid cyngor).

## Casgliad

**30.** Ni fwriedir i'r polisi hwn gyfyngu disgresiwn Cyngor Gwynedd wrth wneud penderfyniadau TTD. Cynllun yn ôl disgresiwn ydyw a bydd rhai achosion bob amser gydag amgylchiadau arbennig neu anghyffredin ble fydd yr un sy'n gwneud penderfyniad yn ystyried y gellid cyfiawnhau dyfarniad TTD  Mantais cynllun yn ôl disgresiwn yw, pa bynnag bolisi a ddefnyddir gellir a dylid gwneud dyfarniadau o'r fath i rai gydag amgylchiadau anghyffredin neu arbennig.

# ATODIAD 1

# GRWPIAU BLAENORIAETH

## TALIADAU CYFREDOL

### GRŴP A:
### AELWYDYDD BLE NAD YW TREFNIADAU GWAHANOL YN OPSIWN REALISTIG

*Dyma yw'r **grŵp Blaenoriaeth Uchaf** sy'n cynnwys y rhai sy'n amodol i amgylchiadau sy'n eithriadol a ble byddai gwneud trefniadau tai gwahanol yn arbennig o anodd, neu ble fo rhwystrau difrifol yn atal yr hawlydd neu bartner rhag gwella ei sefyllfa ariannol.*

- Aelwydydd sy'n amodol i reolau tan-feddiannaeth y ***Sector Cymdeithasol*** ("treth ystafell wely") gyda phlentyn neu blant ar yr aelwyd.

- Aelwydydd sy'n amodol i reolau tan-feddiannaeth ble fo person anabl ac oherwydd ei anabledd, bod un ai addasiadau sylweddol wedi eu gwneud i'r eiddo, neu fod yr eiddo yn arbennig o addas i'w anghenion penodol.

- Aelwydydd sy'n amodol i reolau tan-feddiannaeth ond ble mae oed y plentyn/plant yn golygu y bydd ganddynt y nifer briodol o ystafelloedd gwely yn fuan.

- Aelwydydd hŷn yn y ***Sector Rhent Preifat*** sydd â chynnydd rhent fydd yn mynd â'u rhent i fod uwchben y Lwfans Tai Lleol.

- Aelwydydd ble y bu'n rhaid mynd â phlant oddi yno oherwydd eu diogelwch a'u rhoi mewn gofal maeth ble fo tystiolaeth y bydd y plant yn dychwelyd i'r eiddo, a'r ymgeiswyr yn aros am ddyfarniad llys am gystodaeth eu plant.

- Aelwydydd sy'n amodol i reolau tan-feddiannaeth, ble fo rheswm meddygol difrifol am ystafell ychwanegol gaiff ei gefnogi gan farn feddygol ffurfiol.

  *Er enghraifft ble fo partneriaid ddim yn gallu rhannu ystafell wely oherwydd bod amgylchiadau meddygol yn eu hatal rhag gwneud hynny.*

- Ble fo rhywun ar yr aelwyd yn feichiog, yn cynnwys rhai sydd ar hyn o bryd mewn llety a rennir neu yn amodol i ostyngiad tan-feddiannaeth (i'w adolygu ar ôl i'r baban gael ei eni).

- Ymgeiswyr sy'n aros am ddyfarniad llys am gystodaeth plant.

- Ymgeiswyr gyda threfniadau cystodaeth ar y cyd o blant sydd ddim yn derbyn taliadau Budd-dal Plant i'r plant hynny.

- Ymgeiswyr hyd at 25 mlwydd oed sydd mewn llety preifat a fyddai'n ddigartref oni bai eu bod yn cydweithio ag elusennau i'r digartref a/neu fentrau cymdeithasol i gynnal gwaith a chwilio am lety mwy fforddiadwy

**GRŴP B:**

- **AELWYDYDD BLE FO'R YMGEISYDD A/NEU BARTNER YN CEFNOGI AELWYD ARALL NEU AELODAU O'R TEULU, NEU SYDD EU HUNAIN YN CAEL EU CEFNOGI, A BYDDAI NEWID TREFNIADAU'R AELWYD YN PERYGLU'R GEFNOGAETH HONNO.**
- **AELWYDYDD SYDD YN AMODOL AR Y RHEOLAU "TRETH YSTAFELL WELY", A HEB BLANT DIBYNNOL YN BYW GYDA HWY.**

*Y grŵp yma yw'r* ***ail grŵp uchaf*** *oherwydd bod aelodau o'r teulu yn cefnogi aelodau eraill o'r aelwyd a byddai gwneud trefniadau tai neu gyflogaeth arall ag effaith negyddol ar y lefel neu'r math o gefnogaeth a roddir. Mae'r grŵp hefyd yn cydnabod pobl sydd yn amodol ar y "treth llofftydd", gyda Gwynedd wedi cael ei dynodi fel un o'r ardaloedd efo'r boblogaeth leiaf dwys ym Mhrydain, gyda llai o opsiynau ar gael i denantiaid sydd yn cael eu heffeithio gan y mesur yma.*

- Aelwydydd sy'n amodol i reolau tan-feddiannaeth y ***Sector Cymdeithasol*** ("treth ystafell wely") heb blentyn na phlant ar yr aelwyd.
- Aelwydydd sy'n amodol i reolau tan-feddiannaeth ble fo gofalwr maeth sydd a'i amgylchiadau yn golygu nad ydynt wedi eu heithrio.
- Teuluoedd gydag ymyrraeth gwasanaeth cymdeithasol gweithredol, er enghraifft, oedolion sy'n arbennig o ddibynnol, plant mewn perygl neu yn rhan o brosiect ymyrraeth deuluol.
- Rhai sy'n gofalu yn llawn amser am aelod o'r teulu ac o ganlyniad yn wynebu trafferthion neu rwystrau ychwanegol i fynd i waith.
- Aelwydydd sy'n amodol i ostyngiadau cap budd-dal ble fo plant ar yr aelwyd.
- Pobl ddigartref sy'n cael eu cefnogi i setlo yn y gymuned.
- Aelwydydd ble mae tystiolaeth i gefnogi na all plant rannu ystafell wely, ble y cyflwynwyd neu y gwrthodwyd cais am Lwfans Byw i'r Anabl (DLA) neu Daliad Annibyniaeth Personol (PIP), yn aros canlyniad apêl.

**GRŴP C:**

**Aelwydydd ble fo rhwystrau eithriadol tymor byr personol neu gymdeithasol i symud**

*Mae'r Grŵp yma yn cynrychioli'r rhai hynny sydd â rhwystrau tymor byr sy'n eu hatal rhag newid eu trefniadau tai. Gallai y rhain fod yn rwystrau personol neu gymdeithasol neu'r ddau. Gellid ymdrin â'r heriau ond ddim ond gyda chefnogaeth allanol ychwanegol. Gallai hyn fod yn gefnogaeth gynigir gan y cyngor neu ei bartneriaid neu ddarparwyr trydydd sector fel elusennau a'r sector gwirfoddol.*

- Pensiynwyr sy'n byw yn yr ardal, a fyddai yn ei chael hi'n anodd sefydlu cysylltiadau cefnogi mewn ardal newydd.
- Aelwydydd sy'n byw mewn ardal wledig ac oherwydd gofalu neu gyfrifoldebau tebyg, fe fyddent yn cael chael hi'n arbennig o anodd i symud, neu i gael cyflogaeth yn lleol.
- Ble fo'r ymgeisydd yn sengl ac o dan dri deg pum mlwydd oed gyda phlant sy'n aros gydag ef/hi am o leiaf un noson yr wythnos ond a ystyrir ar gyfer dibenion Budd-dal Plant yn byw gydag oedolyn arall (sydd yn derbyn Budd-dal plant i'r plentyn).
- Aelwydydd unigol a gefnogir i adsefydlu oherwydd dibyniaeth, a ble byddai byw mewn llety llai neu wahanol yn golygu perygl sylweddol o gael ail bwl o salwch.
- Aelwydydd ble fo'r hawlydd neu ei bartner gyda phlant a ystyrir i ddibenion Budd-dal Tai i fod yn byw gydag oedolyn arall (sy'n derbyn Budd-dal Plant am y plentyn) ac sy'n aros gyda hwy am o leiaf un noson yr wythnos.

---

**GRŴP D:**
**Aelwydydd ble y gallai trefniadau newid tai effeithio ar eu gallu i gynnal cyflogaeth.**

*Mae'r grŵp yn cynnwys aelwydydd ble fo cyflogaeth neu gyflogaeth ychwanegol yn cynnig y cyfleoedd gorau iddynt wella eu hamgylchiadau ond gallai'r risg o symud leihau eu rhagolwg o waith neu waith pellach.*

- Pobl sy'n gweithio mewn swydd dros dro ble gallai gwneud trefniadau tai gwahanol effeithio ar eu gallu i sicrhau gwaith mwy sefydlog.
- Pobl sydd angen byw ger eu swyddi oherwydd eu bod yn gweithio oriau anghymdeithasol neu yn rhannu shifftiau.
- Pobl ble byddai symud yn golygu cynnydd sylweddol mewn costau teithio i'r graddau na fyddai cynnal cyflogaeth yn hyfyw.

**GRŴP E:**

**Aelwydydd sy'n profi diffygion rhent ond a fedrai fanteisio o gefnogaeth ariannol tymor byr.**

*Nid yw tymor byr wedi ei ddiffinio yn y gyfraith fel amser penodol. Mae yn brawf o resymoldeb ac o ran y grŵp blaenoriaeth yma mae'r Cyngor wedi penderfynu y byddai cyfnod o 13 wythnos (neu lai) yn rhesymol. Rhoddir ystyriaeth i amgylchiadau bob ymgeisydd yn hytrach na defnyddio un rheol bendant.*

- Aelwydydd sydd ddim yn grwpiau A i D gyda diffygion rhent yn codi o ddiwygiadau lle ac sydd angen cadw eu llety presennol tra'n edrych am drefniadau arall addas.

---

## TALIADAU UNTRO

**GRŴP A:**
**Aelwydydd ble fo trefniadau gwahanol yn cael eu hwyluso gan Ddyfarniad TTD.**

*Dyma'r **grŵp blaenoriaeth uchaf.** Mae hwn yn cynnwys y rhai sy'n gallu newid trefniadau byw eu haelwyd i lety mwy priodol.*

- I dalu am gost blaendal rhent/rhent ymlaen llaw i denantiaeth, neu gostau symud a fyddai yn golygu bod y rheolau tan-feddiannaeth, cap budd-dal neu gyfyngiad CTLl ddim bellach yn gymwys.

**GRŴP B**
**Aelwydydd ble fo'r hawlydd a/neu bartner angen cymorth i wella eu gallu i weithio.**

*Dyma'r **grŵp ail uchaf** gan fod aelodau o'r teulu angen cymorth i gael gwaith neu waith ychwanegol i wella eu hamgylchiadau, a byddai hyn un ai yn golygu y gallent wedyn fforddio'r gwahaniaeth rhwng y rhent a'r BT neu yn gallu symud i ardal arall ble mae gwaith.*

- Cymorth gyda theithio.

**GRŴP C**
**Aelwydydd ble mae hi'n bosib cymryd lletywr neu eraill a fedrai helpu gyda chost y tŷ**

*Mae'r grŵp yma yn cynrychioli'r rhai hynny sydd angen buddsoddi yn eu cartref i roi llety i letywr neu is-denantiaid fydd yn gallu helpu gyda rhent yr aelwyd.*

- Cymorth ariannol gydag addurno neu addasiadau i'r cartref i roi llety i letywr.

- Cymorth ariannol tuag at gost dodrefn a dillad gwely.

---